# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

MEDI 1976

RHIF 33


# Sychod am Wybodaeth

**Dŵr Cymru'n mynd i Loegr, a Chymru'n chwysu a sychedu a chrebachu yn y gwres. Dŵr Cymru'n mynd i Loegr yn rhad ac am ddim — ac Awdurdod Datblygu Dŵr Cymru'n cael cynnig prynu dŵr a thalu am ei fewnforio o lefydd annhebygol fel Iwerddon a Norwy. Ac yn awr, fe ychwanegwyd elfen newydd, fwy eironig fyth i'r sefyllfa ddisynnwyr hon, sef bod dosbarthiadau dysgu Cymraeg yn gorfod cau oherwydd diffyg dŵr yng Nghymru.**

Chwerthinllyd ynte, ond mae'n ffaith. Eisoes bu'n rhaid gohirio dau allan o'r pump o gyrsiau Wlpan a drefnwyd gan Adran Efrydiau Allanol Coleg Y Brifysgol, Caerdydd, a gall dyfodol un o'r lleill fod yn y fantol — oherwydd cau'r canolfannau y cynhelir y cyrsiau hyn ynddynt gyda'r nos o achos yr argyfwng presennol. Gall fod y gorfodir Canolfan yr Urdd yn Heol Conwy i gau am yr un rhesymau, (er nad oes sicrwydd ynglŷn â hyn eto) gan amddifadu'r ugeiniau o bobl sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg yno, heb son am bobl ifanc yr Aelwyd a'r Uwch-Adran.

Ni fydd Wlpan yng Nghaerffili hyd ddiwedd yr argyfwng presennol gan fod yr Ysgol Gymraeg, yn unol â pholisi ysgolion Canol Morgannwg, yn gorfod cau cyn gynted ag yr atelir y cyflenwad dŵr yn ystod y prynhawn. Felly hefyd yr Wlpan a oedd i'w chynnal yn Rhisga: caewyd Canolfan Addysg Oedolion Oxford House lle cynehlir holl ddosbarthiadau addysg oedolion y cylch, gyda'r nos ac fe fydd yn aros ar gau hyd nes daw'r cyflenwad dŵr yn ôl. Mae Wlpan y Bontfaen yn iawn ar hyn o bryd — ond os penderfyna Awdurdod Addysg De Morgannwg fod yn rhaid iddynt hwythau gau eu Canolfannau Addysg i Oedolion oherwydd y prinder dŵr, dyna ddiwedd ar yr Wlpan honno hefyd.

Ie, chwerthinllyd. Yn enwedig felly gan mai'r unig reswm mewn gwirionedd dros wrthod caniatad i ddefnyddio'r llefydd hyn ar gyfer dosbarthiadau nos yw diffyg cyfleusterau tŷ bach. Ond mae'n siwr fod y rhan fwyaf o bobl sy'n dilyn cwrs dosbarth nos wedi mynychu eu dosbarthiadau'n selog ar hyd y blynyddoedd heb iddynt erioed weld y tu fewn i'r tai bach yn yr un o'r adeiladau hyn! Mae'n bosibl y gall sefyllfa fel hon beri anhawster yn achos plant bach mewn ysgolion drwy'r dydd, ond does bosib na ellir cynghori dosbarth o oedolion ar y mesurau angenrheidiol y dylent eu cymryd cyn mentro am ddwy awr i ddosbarth di-ddŵr?

Ond dyna ni, mae'r holl fusnes dŵr 'ma yn mynd yn fwy fwy disynnwyr bob dydd. Er enghraifft, wele'r Blaid Lafur wedi penderfynu erbyn hyn mai ar Blaid Cymru, mewn rhyw ddirgel ffyrdd, y mae'r bai i gyd am y sefyllfa sychedig bresennol! (Gweler *Y Cymro*, Awst 31). Os mai bai'r cenedlaetholwyr yw'r cwbl, rhyfedd na fyddai rhyw athrylith o blith rhengoedd y Blaid Lafur wedi meddwl am ofyn i'r nyth wiber honno o genedlaetholwyr, yr Orsedd, i wneud penyd am eu pechodau a dawnsio am law yn ystod wythnos yr Eisteddfod, yn hytrach na gorfod dibynnu ar ddoniau Sikhiaid Southall!

Diolch i'r drefn, llwyddodd y Blaid i ffeindio ennyd yn rhydd o'u hobsesiwn presennol




â Libya bell i wfftio honiadau hynod (a dweud y lleiaf!) Mr Emrys Jones cyn dychwelyd at y mater sy'n mynnu eu holl sylw ar hyn o bryd, sef gwerthu ŵyn Cymreig i Cyrnol Gadaffi. Am eu hallforio ar frys, debyg iawn, cyn iddynt farw o syched yma. 'Tydan ni'n bobol od?

# Cariad Creulon

Mae Theatr yr Ymylon yn cychwyn ar daith arall ym mis Medi gyda chynhyrchiad o ddrama enwog R. Bryn Williams, "Cariad Creulon". Braf iawn fydd cael cyfle i weld y clasur hwn, a berfformiwyd gyntaf gan Gwmni Theatr Cymru dros ddeng mlynedd yn ôl, ar lwyfannau Cymru unwaith eto.

Dyma gynhyrchiad cyntaf yr actor Meredith Edwards o ddrama Gymraeg er bod ganddo brofiad helaeth o gynhyrchu dramau Saesneg. Wedi ei lwyddiant ysgubol yn chwarae Malachi yng nghynhyrchiad y cwmni hwn o "Pobl yr Ymylon" rai misoedd yn ôl, edrychwn ymlaen at fwynhau ffrwyth ei waith mewn maes gwahanol.

Mae "Cariad Creulon" yn un o'r dramau a astudir ar gyfer yr arholiadau lefel "O" a dyma gyfle gwych felly i ddisgyblion ysgol fwynhau drama dda — a chael tipyn o help llaw gyda'r hen waith hefyd. Gellir gweld "Cariad Creulon" yn Theatr Sherman, Caerdydd o Fedi'r 28-30 am 7.30p.m. (Iau am 2.00p.m. hefyd).




*Ennyd o heddwch ar derfyn dydd prysur ar stondin hufen ia y Ganolfan yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dim rhyfedd i'r gwaith fod mor galed, a phobl yn dod o bedwar ban y byd i fwyta hufen ia Thayers...... (gweler tud. 3).*

# GOLYGYDDOL

Llythyr a ddaeth o'r wlad ddirgel honno, Y Fro Gymraeg (wele gyferbyn) yn gofyn i'r *Dinesydd* i gefnogi'r ymgyrch i sicrhau gwasanaeth radio Cymraeg. Amen, medden ninnau, a mynd ati i baratoi erthygl gefnogol. Ond o ddarllen ac ail-ddarllen y llythyr hwn, tybiem fod angen gwneud un neu ddau o sylwadau ar ei gynnwys ac ar y mudiad a'i danfonodd cyn datgan cefnogaeth lawn a diamheuol iddo.

Prin fod yna ddadl yn erbyn gosodiadau'r trydydd paragraff ynglŷn â radio Cymraeg: ond yna, erbyn y pedwerydd paragraff, mae'r ymgyrch dros sicrhau gwasanaeth radio Cymraeg wedi troi'n ymgyrch dros Radio Bro (h.y., radio i'r "Fro Gymraeg" yn hytrach na radio Cymraeg cenedlaethol i wasanaethu Cymru gyfan). Dechrau amau ei bod hi'n gamarweiniol, a dweud y lleiaf, i gyfystyru termau fel hyn — nes darllen y paragraff nesaf, a sylweddoli mai diogelu dyfodol y "broydd Cymraeg" yw pwrpas yr ymgyrch yn ôl y llythyr hwn. A beth am ddyfodol Cymru?

Hwyrach mai gobaith mudiad Adfer yw dinistrio'r syniad hanesyddol o Gymru yn llwyr yn y pendraw a sicrhau na fydd neb yn gallu meddwl amdano'i hun fel Cymro yn y dyfodol, dim ond fel un o drigolion y naill neu'r llall o'r tiriogaethau anelwig hynny, "Y Fro Gymraeg" a "Wales". Ond os felly, wedi i fudiad Adfer wadu hawl trigolion y parthau hyn i'w galw eu hunain yn Gymry, a'u halltudio i fyw yn rhanbarth llwyd ac anobeithiol "Wales", paham y mae un o ganghennau'r mudiad hwnnw yn trafferthu i ysgrifennu atom ni yma fel pe bai ryw ran i'w chwarae yn nyfodol Cymreictod?

Am y rheswm syml *fod* gennym, wrth gwrs, ein rhan i'w chwarae yn yr ymdrech hollbwysig hon. Y mae'n rhaid i bob un ohonom ymdrechu hyd at eithaf ein gallu i sicrhau gwasanaeth darlledu Cymraeg cyflawn a theilwng i Gymru gyfan. Rhaid ymgyrchu am y nod — ond bydded i ni i gyd fod yn hollol glir beth yn union yw'r nod honno cyn dechrau ymgyrchu tuag ati.

Y mae'n hanfodol fod Llywodraeth Lloegr yn mynd ati'n ddiymdroi i ddarparu gwasanaeth radio Cymraeg i bobl Cymru. Y mae'n gwbl hanfodol i ni, bobl Cymru, i bwyso a dal i bwyso'n ddigyfaddawd am hynny, gan wrthod derbyn unrhyw fath o esgusodion pitw dros oedi pellach. Cawsom enghraifft o hyn eisoes gyda'r ymdrech i gymylu'r dadleuon dros sianel deledu Gymraeg, â dadleuon economaidd di-sail (gweler *Y Dinesydd*, Mawrth 1976). Ond y mae hefyd yn hanfodol i fudiad Adfer roi heibio ei hagweddau hunan-gyfiawn a chenedl-rwygol — a sylweddoli mai brwydr genedlaethol dros ddyfodol gwlad, pobl a iaith sydd yn ein hwynebu, nid ymgyrch gyfyngedig i sicrhau hawliau dinesig i leiafrif sef, y Cymry Cymraeg. Mae'n siwr ei bod hi'n bosibl troi'r lleiafrif yn fwyafrif artiffisial drwy grebachu ffiniau'r wlad y maent yn byw ynddi, ac encilio i fyd breuddwyd. Ond, onid y wir her yw troi'r lleiafrif yn fwyafrif *gwirioneddol* mewn Cymru rydd, Gymraeg? Dyna frwydr sy'n werth ei hennill.

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

Llongyfarchiadau i Rhys a Nesta Llwyd, gynt o Donteg, ar enedigaeth Owain ym mis Awst. Mae'r teulu'n byw yn Llanuwchllyn bellach.

*MUDIAD ADFER*
*CANGEN BRO DYFFRYN OGWEN*
*Gwynedd, Y Fro Gymraeg*

*ANNWYL GYFAILL,*

*Anfonaf atoch ar ran Pwyllgor Cangen Bro Dyffryn Ogwen o Adfer ar fater darlledu Cymreig. Fel y gwyddoch, mae Swyddfa Gartref Llywodraeth Lloegr wedi datgan o blaid gohirio'r penderfyniad ar y bedwaredd sianel gan roddi rhesymau economaidd dros hynny. Gwyddom oll bod yr un llywodraeth yn fodlon gwastraffu symiau enfawr o arian ar faterion di-fudd.*

*Teimlwn y dylid codi cwestiwn dyfodol y bedwaredd sianel unwaith eto, a hynny ar fyrder, gan fod unrhyw oedi yn caniatau datblygiad y grymusterau sy'n milwrio yn erbyn ein hiaith a'n diwylliant.*

*Credwn fod gan y papurau bro eu rhan mewn ymgyrch o'r fath, nid yn unig i ledaenu cyhoeddusrwydd ffeithiol i'r angen am sianel deledu Gymraeg, ond hefyd i hysbysu'r cyhoedd o natur y penderfyniad i ohirio a dangos anghysonder amlwg y llywodraeth. Hefyd, gwyddoch fod yna gryn sail i'r farn mai penderfyniad y Swyddfa Gartref ar fater y sianel deledu yw'r rheswm dros yr arafwch affwysol ar ran BBC Cymru yn sefydlu radio Gymraeg. Wrth reswm byddai bodolaeth radio Gymraeg yn llwyfan diwylliannol a sefydliadol i'r alwad am sianel deledu Gymraeg oherwydd byddai'n sefydlu patrwm o ddarlledu Cymraeg ar un o'r prif gyfryngau; hefyd byddai'n gynsail y gellid cyfeirio ato, a byddai'n cryfhau ac yn dwyshau'r alwad am sianel deledu Gymraeg.*

*Fel allai ymgyrch Radio Bro chwarae rhan bwysig yn y gwaith o bwyso ar y llywodraeth a'r Cyfryngau drwy fod yn symudiad gwrthdystiol ac adeiladol.*

*Gofynwn i chwi fel Golygydd (neu aelodau o'r Bwrdd Golygyddol) i ddefnyddio rhifyn Medi o'ch papur i roi sylw i'r alwad ac i'r ymgyrch dros sicrhau penderfyniad buan ar fater y bedwaredd sianel a thros sefydlu'n ddiymdroi radio Gymraeg.*

*Yr ydym yn anfon y gennad a'r cais i bob papur bro gan awgrymu yr un mis. Credwn yn gallai hyn greu sylfach o gydlyniad ac o undod barn ar bwnc mor ganolog a phwysig i ddyfodol y broydd Cymraeg.*

*Hyderwn y gwelwch yn dda i gefnogi'r cais ac i gyflwyno'r gennad i'ch darllenwyr.*

*Yr eiddoch yn gywir,*

*Ar ran Pwyllgor y gangen,*

*ELERI IFAN,*
*Ysgrifennydd.*



# Blodau o Hen Ardd

**Daeth Pete Meazey, perchennog Siop y Triban, o hyd i lyfr diddorol iawn yn ddiweddar ymhlith y cyfrolau ail-law sydd ar werth yn y siop. Detholiad o'r chwedlau a'r penillion gwerin a oedd yn dal yn fyw ar lafar gwlad yn Nwyrain Morgannwg a Gwent ychydig dros drigain mlynedd yn ôl yw *Llên Gwerin Blaenau Rhymni*; casglwyd y deunydd ynghyd gan fechgyn Ysgol Lewis Pengam oddi wrth drigolion y cylch, a chyhoeddwyd y gyfrol gan yr ysgol ym 1912.**

Ynghyd â nifer o chwedlau pert ac anghyfarwydd — megis y rheini am adeiladu Eglwys Eilian (Eglwysilan heddiw), ac am un o offeiriaid yr eglwys a ysbeiliai gyrff y meirw; am dylwyth teg cyfrwys Gelli Gaer, ac am Gawr Gilfach Fargoed, a fu'n gyfrwng darganfod glo am y tro cyntaf yng Nghwm Rhymni — mae yna doreth o benillion gwerin hefyd, rhai ohonynt wedi eu hysgrifennu yn nhafodiaeth Gwent.

SHIR FRYCHINOG
*Fe es am-dro i shir Frychinog*
*Ble ma pedwar peth am ginog*
*Pipur a phapur, halen a hoilon*
*Jiawch yriôd fu tecach dynion*
*(tud 56)*

Mae nifer ohonynt yn gwbl leol, yn rhigymau am lefydd arbennig yng Nghwn Rhymni, megis y rhain:

HYNODION TIRPHIL
*Y mae tri pheth rhyfedd yn Nhirphil*
*Mari'n gwisgo llodre dril,*
*A Gweni'n ymârth heb ddim blawd,*
*A Sion yn tosturio dros y tlawd.* *(tud 48)*

CHWAREU WIC
*Mae Castell yng Nghaer Phili*
*A gwely pluf i gysgu,*
*A lle pert i ware wic,*
*Wrth gefen y Picadili.* *(tud 59)*

A llawer ohonynt, wrth gwrs, yn benillion digri — i roi un enghraifft:

PETH RHYFEDD
*Mae Mari Lewis Edward,*
*Y(n) fenyw dawel fwyn,*
*Hi gafodd ei bedyddio,*
*Yn gwbl ond ei thrwyn,*
*Mor chwithig fydd ei gweled,*
*Ar fryn Caersalem lan,*
*Ei chorff hi fel yr eira,*
*A'i thrwyn hi fel y fran.*

Ond hwyrach mai'r peth rhyfeddaf am y casgliad hynod hwn yw'r ffaith i Ysgol Lewis Pengam deimlo yn y lle cyntaf ei bod hi'n bwysig gwneud casgliad o'r fath. Y mae awdur (dienw) y rhagair yn ymwybodol o ddwy elfen o bwys yn yr ymgymeriad, sef, yn naturiol, yr angen am ddiogelu'r hen ddiwylliant llafar rhag diflannu'n llwyr ond hefyd, yr angen am ddiogelu Cymraeg y bechgyn eu hunain. "Dengys y llyfr bychan hwn ffrwyth dau amcan," meddai. "Yn flaenaf — ymgais i gael y bechgyn i ysgrifennu yn wreiddiol a naturiol — ac heb gyfieithu. ......Yn ail, amcanwyd gasglu hwian-gerddi a phenillion gwerin, fel y byddai rhyw fynegiant i'w gael o'r darn hwn o fywyd gwerin Yr Ardd Ganol a Senghennydd." Gresyn na fuasai mwy o Gymry (ac yn enwedig athrawon ysgol) y cyfnod hwnnw wedi gweld pwysigrwydd y pethau hynny hefyd.

Cyfeirir hefyd yn y rhagair at y gobaith y gellid cynhyrchu cyfrol arall debyg y flwyddyn ganlynol, pe bai'r un gyntaf yn llwyddiant. Tybed a wireddwyd y gobaith hwnnw — oes 'na rywrai o blith darllenwyr *Y Dinesydd* a allai daflu goleuni ar hynny?



*MARI, TARO, YMUNI, ASAMI a YASKUO o Siapan yn mwynhau wrth stondin hufen ia Canolfan yr Urdd, Caerdydd, yn Aberteifi.*


THEATR YR YMYLON
yn cyflwyno
Cariad Creulon
gan Bryn Williams

Medi 27 — YSTALYFERA — Ysgol Gyfun Ddwyieithog
Tocynnau wrth y Drws. (7p.m.)
Medi 28, 29, 30. — CAERDYDD — Theatr Sherman
Tocynnau — Swyddfa Docynnau y Sherman, Caerdydd 25855.

Dydd Mawrth a Mercher am 7.30 Iau 2.00p.m. & 7.30p.m.


**Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Hydref 8fed. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn MEDI 27 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**

## CALENDR MEDI - HYDREF

**MEDI**

10 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri a'r Fro MORDAITH HAFREN Pier Penarth 8.15p.m.
14 Merched y Wawr, Caerdydd, CYFARFOD AGORIADOL Canolfan yr Urdd, Heol Conwy 7.30p.m.
18 Cymdeithas Eglwys Heol y Crwys PERERINDOD I FRO MORGANNWG dan arweiniad John Gwynfor Jones, 2.00p.m.
20 Cymdeithas Gymraeg Caerffili CÔR CERDD DANT LISA ERFYL Ysgol Gymraeg Caerffili 7.15p.m.
Yr Urdd, Dosbarth Caerdydd, HELFA DRYSOR i'r Adrannau Cynradd. Canolfan yr Urdd, 4.30p.m.
24 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri a'r Fro Y FEDEL WENITH Bwyd a diod, dawnsio a chanu. Atoty'r Neuadd Goffa, Y Barri.
24-25 Cwmni Theatr Cymru Y LEFIATHAN Theatr Sherman. Heol Senghennydd 7.30p.m.
25 Plaid Cymru, Cangen y Merched GŴYL FEDI Canolfan yr Urdd, 7.00p.m. Swper bys a bawd. Gŵr gwadd, Emrys Roberts.
28-30 Theatr yr Ymylon CARIAD CREULON Theatr Sherman, Heol Senghennydd. Mawrth/Mercher 7.30p.m. Iau 2.00 a 7.30p.m.

**HYDREF**

9 Plaid Cymru, Cangen y Merched FFAIR SBORION yn Neuadd Sant Saviour, Sblot.
11-12 Cwmni Theatr Cymru YNYS Y GEIFR Theatr Sherman, Heol Senghennydd 8.00p.m.
16 TREN ARBENNIG I LUNDAIN Dan nawdd Pwyllgor Ysgolion Meithrin De Morgannwg. Tocynnau oddi wrth y swyddogion.

# TUDALEN Y DYSGWYR

*Trist yw gorfod dechrau'r flwyddyn ysgol newydd ar nodyn diflas iawn. Oherwydd prinder dŵr ni fydd dosbarthiadau nos Morgannwg Ganol yn ail ddechrau'r tymor hwn. Mae'n bosibl erbyn y bydd yr erthygl hon yn ymddangos yn y wasg y bydd De Morgannwg hefyd wedi cael eu gorfodi oherwydd yr argyfwng i ddilyn yr un llwybr. Mae hyn yn golygu y bydd cannoedd o ddysgwyr eiddgar yn colli'r cyfle i ddysgu'r iaith a'r cwestiwn mawr sy'n fy mlino i yw, tybed a fydd hi'n bosibl i ennyn diddordeb y tymor nesaf ar ôl colli'r cyfnod gorau yn y flwyddyn o safbwynt dosbarthiadau i oedolion. Rhaid ystyried o ddifrif, os y gwnaiff yr argyfwng presennol barhau'n hir iawn, y posibilrwydd na cheir dosbarthiadau o gwbl drwy'r flwyddyn.*



# NEWYDDION

**GWERSI MEWN TAFARN?**
*Tybed felly a yw hi'n bosibl gwneud darpariaeth wirfoddol ar gyfer y bobl hyn? Mae canolfan yr Urdd yn Heol Conwy wedi bod yn cynnal dosbarthiadau o'r fath am flynyddoedd gyda nifer da o athrawon brwd yn fodlon gweithio yn rhad ac am ddim yn llwyddiannus dros ben. Yn wyneb hyn tybed beth a ellir ei wneud? Mae un neu ddau o athrawon eisioes wedi dweud y byddant yn hapus iawn i gynnal dosbarth dros dro yn eu cartrefi. Wel, bendigedig ynte? Rwy'n siwr y gwnaiff nifer o athrawon ddilyn yr esiampl hon. Bwriadwn ni ym Morgannwg Ganol gynnal nifer o gyfarfodydd yn weddol fuan i drafod y sefyllfa a gweld beth sy'n bosibl ei wneud i gadw'r diddordeb i fynd mewn cyfnod eithriadol o galed. Braf oedd darllen yn y* **Western Mail** *y dydd o'r blaen am y dafarn yn Merthyr sy'n mynd ati o ddifri i geisio hyfforddi eu cwsmeriaid. Efallai y byddai'n syniad i geisio datblygu'r syniad ymhellach yng Nghaerdydd a'r cylch. Os oes gennych syniadau byddwn yn falch iawn i glywed oddiwrthych.*

**YSGRIFENNWCH!**
*Yn ystod y flwyddyn yma dim ond unwaith rwyf wedi derbyn unrhyw sylw oddi wrth ddarllenydd ar gyfer y golofn hon. Ga'i apelio eto ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd arall am lythyrau, storïau, barddoniaeth, hanesion neu unrhyw beth a gredwch fydd o ddiddordeb i'r dysgwyr ac i athrawon dosbarthiadau nos. Yn anffodus nid yw'r cylchgrawn 'Yr Agoriad' yn ymddangos bellach, ond fe all y Dinesydd lanw'r bwlch hwn. Felly beth am fynd ati ar unwaith, os gwelwch yn dda?*

**CYRSIAU CASET**
*Braf oedd cael bod yn Mhabell y Dysgwyr yn yr Eisteddfod yn Aberteifi eleni a chael gweld gymaint o wir ddidordeb sydd ar gael dros y wlad mewn dysgu'r iaith ar hyn o bryd. Yn wir nid yn unig dros Gymru ond o bob rhan o'r byd. Mae llawer mwy o ddiddordeb gan bobl hefyd nag a fu mewn ceisio dysgu'r iaith ar ben eu hunain ac wrth gwrs mae nifer o gyrsiau ar gael bellach sy'n gwneud hyn yn bosibl. Mae llawer o bobl sy'n teithio'r wlad o ddydd i ddydd yn gwneud hyn bellach gan wrando ar gyrsiau ar gasetiau. Mae llawer o wragedd tŷ yn ffeirdio cyrsiau o'r fath yn ddefnyddiol dros ben.*

*Syndod mawr fodd bynnag yw clywed cymaint o bobl sy heb wybod am y cyrsiau arbennig hyn sy'n cael eu darparu gan yr Uned Iaith, y BBC a Cwrs Cymraeg Llafar gan Dan L. James. Yn y sychder presenol rwy'n siwr y bydd y cyrsiau hyn yn hanfodol bwysig i nifer fawr o bobl.*

**COLLI CYMRAEG**
*Mae'n drueni mawr fod cymaint o blant oherwydd yr orfodaeth i ddewis pynciau ar gyfer arholiadau yn gorfod gorffen dysgu Cymraeg pan maen nhw tua 14 oed. Mae llawer o'r plant yma wedi bod yn astudio 'r iaith am ryw saith mlynedd ac yna'n sydyn clywir 'I've dropped Welsh now'. Mewn ychydig iawn o amser maen nhw wedi anghofio bron bopeth roedden nhw wedi ei ddysgu. Hyfryd oedd clywed yn Aberteifi gan nifer o athrawon sydd bellach yn ceisio gwneud darpariaeth ar gyfer y plant yma drwy roi ambell i wers lafar Gymraeg iddynt yn yr awr ginio neu adeg gwers rydd. Dengys hyn fod yna lawer iawn o athrawon cydwybodol ar gael o hyd sy'n fodlon ymdrechu'n galed dros yr iaith.*

**CYMYLAU**
*Mae llawer o gymylau'n ymddangos yn yr erthygl 'sych' hon. Mawr obeithiwn cyn y Dinesydd nesaf y byddant i gyd wedi torri ac y gall dysgu Cymraeg i Oedolion gario ymlaen yn ddirwystr unwaith eto.*

*JOHN ALBERT*

**GEIRFA**
prinder - shortage
argyfwng - crisis
ennyn diddordeb - to awaken an interest
darpariaeth - provision
gwirfoddol - voluntary
bwriadu - to intend
eithriadol - exceptional
gorfodaeth - compulsion
cydwybodol - conscientious
dirwystr - unhindered

# CYRSIAU'R GAEAF

**NOS IAU**

**CROESI'R BONT.** (Ar gyfer **DYSGWYR** sy naill ai wedi bod wrthi'n astudio'r iaith am gryn amser neu wedi bod mewn cyrsiau dwys.) D. Wynne Lloyd, B.A. 13 darlith. Cyfarfod cyntaf: Medi 16. 6.30 — 8.30. Tâl: £3.00. Man cyfarfod: **CANOLFAN ADRAN EFRYDIAU ALLANOL, HEOL Y PARC.**

**ASTUDIAETHAU MEWN LLENYDDIAETH GYMRAEG.** (Ar gyfer **DYSGWYR PROFIADOL.**) Falmai Griffiths. 24 darlith. Cyfarfod cyntaf: Medi 23. 7.00 — 9.00. Tâl: £2.50. Man cyfarfod: **YSGOL GYFUN GLAN-Y-NANT, MANOR WAY, EGLWYSNEWYDD.**

**CWRS ARBENNIG:**
**NOS FAWRTH**

**CWRS MEISTROLI (BLWYDDYN GYNTAF).** Ar gyfer **DYSGWYR** y mae'r cwrs, dysgwyr sy wedi gwneud rhyw 200 o oriau eisoes mewn cwrs neu ddosbarth i oedolion neu sy wedi llwyddo yn yr arholiad 03. Ar ddiwedd dwy flynedd gall y myfyriwr cydwybodol ei ystyried ei hun yn addas ar gyfer Tystysgrif arbrofol y Brifysgol mewn Cymraeg fel ail-iaith. Trefnir rhyw dair ysgol Sadwrn yn gysylltiedig â'r cwrs yn ystod y flwyddyn. 24 Cyfarfod. Cyfarfod cyntaf: Medi 28. 5.30 — 8.30. Tâl: £8. Man cyfarfod: **ADRAN EFRYDIAU ALLANOL, HEOL Y PARC.**


# AMERICA
## Y Baradwys Bell



• *John Evans, Waenfawr, yn chwilio am yr Indiaid Cochion Cymraeg yng nghoedwigoedd y Missouri.*

Cyfres o chwe ffilm am hynt a helynt y Cymry yn America — o John Evans Waenfawr yn dilyn y Tywysog Madog, i 'Murray the Hump' (Llewelyn Morris Humphreys) yn dilyn Al Capone.

Rhaglen gyntaf, Nos Fawrth, Medi'r 14eg (10.40) — ac am 10.30 y pum Nos Fawrth sy'n dilyn.

Ein cyfraniad i'r Ddau-Ganmlwyddiant. Cyfres gyffrous a lliwgar wedi'i ffilmio yn yr Unol Daleithiau ac yng Nghymru. Awdur a chyd-gynhyrchydd, Emyr Humphreys; cynhyrchydd a chyfarwyddwr, Huw Davies.

HTV CYMRU WALES

# NEWYDDION CWM RHYMNI

## CYMDEITHAS GYMRAEG CAERFFILI

Mae rhaglen gaeaf y Gymdeithas yn cychwyn ar nos Lun, Medi 20fed, gyda noson yn nwylo medrus aelodau Côr Penillion Lisa Erfyl. Cynhelir y cyfarfodydd eleni yn Ysgol Gymraeg Caerffili, Stryd Parcyfelin, gan gychwyn am chwarter wedi saith ac mae tocynnau aelodaeth ar gael eisoes am 20c (coeliwch chi byth!) oddiwrth yr Ysgrifennydd, Gareth Roberts, 9 Gwaun Hyfryd, Caerffili 867365. Mae gweddill y cyfarfodydd cyn y Nadolig fel a ganlyn —

Hydref 4ydd — Taith o amgylch gwledydd Ewrop yng nghwmni Gerwyn Griffiths, Caerfyrddin, gyda chymorth ffilm.

Tachwedd 12fed — Noson Lawen gyda Chymrodorion Dowlais.

Tachwedd 29ain — Darlith gan benigampwr 'Byd Garddio' Richard Bowering.

Rhagfyr 20fed — Noson o garolau i ddathlu'r Nadolig gyda disgyblion ysgolion lleol, y cyfan yn nwylo Catrin Rowlands.

Mae'r Gymdeithas yn cynhyrchu pamffled eto eleni yn rhestru holl weithgareddau Cymraeg yr ardal ac fe'i ddosberthir i Gymry Cymraeg y cylch yn gynnar ym mis Medi. Gwahoddir y sawl sydd heb dderbyn copi a'r rhai sydd newydd symud i fyw yma i gysylltu â'r Ysgrifennydd yn ddi-oed.

## MERCHED Y WAWR


Hon fydd blwyddyn lawn gyntaf Cangen Caerffili o Ferched y Wawr ac mae rhaglen ddifyr wedi'i darparu i blesio pob chwaeth. Bydd y gangen yn cyfarfod yng Nghanolfan y Twyn gan ddechrau am 8p.m., nos Iau Medi 16. Ceir manylion pellach gan yr Ysgrifenyddes, Eleri Betts, Afallon, Llwyn Eithin, Caerffili 867033.

## Y CYLCH DIWYLLIANNOL

Er gymaint fydd prysurdeb W.J. Jones yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifennydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd, 1978, y mae'n benderfynol o gadw ei addewid i arwain y Cylch eleni mewn astudiaeth a thrafodaeth o hanes a datblygiad y ddrama yng Nghymru a'r dylanwadau o'r cyfandir. I'r rhai a fu yng nghwmni W.J. yn trafod Saunders Lewis y llynedd a Llenyddiaeth Gymraeg Gyfoes y flwyddyn gynt, nid oes angen hysbysebu'r cwrs hwn o ddeg darlith. Ond os nad ydych wedi ymuno â'r Cylch eto ac yn awyddus i fwynhau ffresni'r trafodaethau gyda chwmni diddan o amaturiaid llon, yna dewch i'r cyfarfod cyntaf yn y Ganolfan Athrawon, Mill Rd., Caerffili am chwarter wedi saith, nos Lun Medi 29ain. Cynhelir y cwrs dan nawdd Adran Efrydiau Allanol y Brifysgol ac Ysgrifennydd lleol y Cylch yw Dafydd Islwyn, 106 Heol Llancayo, Bargoed 830994.


## AELWYD CAERFFILI

Bydd y ddwy gangen o'r Urdd, yr Aelwyd a'r Uwch-Adran, yn cyfarfod yn wythnosol yn festri capel Tonyfelin — yr Aelwyd ar nos Wener ar gyfer plant dosbarthiadau 3 i fyny a'r Uwch-Adran ar nos Fercher



ar gyfer y plant iau. Bu'r pwyllgor yn brysur y llynedd yn casglu arian at wella'r cyfleusterau ac fe fydd peth o'r gwaith yn cychwyn yn yr Hydref. Mae peth ffordd i fynd eto cyn cyrraedd y nod ariannol o £500 ac mae'r pwyllgor yn cychwyn apêl gyffredinol yn ystod mis Medi ymysg trigolion yr ardal i geisio gorffen y gwaith. Derbynir pob cyfraniad gan y Trysorydd, H.P. Richards, Parc-y-lan, Ffordd y Mynydd, Caerffili.

## WLPAN 1976




## NOS WENER — Y GLOCH LAS!

Mawr yw'r angen yng Nghaerffili, yn arbennig ymysg dysgwyr, am fan cyfarfod reolaidd i fwynhau sgwrs heb orfod gwastraffu Saesneg. Anodd iawn yw cychwyn arferiad ond teimla nifer o Gymry'r cylch mai da o beth fydd ceisio magu'r arferiad canlynol — sef i droi i mewn i'r Gloch Las, Caerffili, bob nos Wener am sgwrs a lemonêd (wrth gwrs!) yn y bar cefn.

## DYCHRYN DAFYDD

Dychrynwyd Dafydd Islwyn, Bargoed, ganol nos ar ddechrau wythnos yr Eisteddfod yn Aberteifi gan swn annaearol y tu allan i'w garafan. Wedi llawer o betruso fe fentrodd i'r tywyllwch a darganfod mai colomen wyllt ar gangen uwch ben a barodd y braw. Wedi clywed yr hanes, dyma Moi Parri, Senghennydd, yn ei groniclo ar ffurff englyn —

*Ai ellyll sy tu allan — neu ysbryd*
*Dychrynllyd o'r winllan?*
*I hen foi mewn carafan*
*Oes gwaeth na sgrech ysguthan?*

## JOHN EDWARDS

Mawr fu dyled y bywyd Cymraeg yng Nghaerffili dros y blynyddoedd i'r gŵr diymhongar hwn, a fu farw yn sydyn yn ddiweddar o fewn cyrraedd i'w oedran ymddeol. Roedd ei ffyddlondeb i holl achosion Cymraeg y dref ac i lawer o fudiadau eraill yn ddiarhebol, a'i gyfraniad i lwyddiant Cymdeithas Gymraeg Caerffili, yn arbennig, yn amhrisiadwy. Ni chafodd ac ni fynnodd erioed gael swydd yn y Gymdeithas ond John fyddai'r cyntaf i gyrraedd pob cyfarfod a'r olaf i adael. Fe'i gwelid yn gyson ar nosweithiau Sadwrn yn cerdded strydoedd Caerffili â'i bocedi'n drwm dan bwysau tocynnau aelodaeth y Gymdeithas neu docynnau cyngerdd neu noson lawen — a phwy allai ei wrthod? Darganfuwyd yn ddiweddar fod ganddo ddawn arbennig i ganu caneuon gwerin a ddysgodd pan yn fachgen yn y Brithdir, Dolgellau. Gwefreiddwyd y gynulleidfa mewn nosweithiau llawen lleol gan ei berfformiadau dihafal o ganeuon fel 'A welsoch chwi sgert fer fy Nain?'!

Oedd, mi roedd John yn 'dipyn o gymeriad' ac ni fydd y pethe yr un fath hebddo.


GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU

Ffôn Caerdydd 31174

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

# Y DDRAMA OLAF

**Ar ôl hirlwm haf o safbwynt y theatr, dyma Gwmni Theatr Cymru yn dechrau ar eu rhaglen am y gaeaf gyda dau ymweliad i Gaerdydd o fewn tair wythnos i'w gilydd.**

Diau y bydd croeso mawr i'r cynhyrchiad cyntaf, *Y Lefiathan*, sef drama olaf y diweddar Huw Lloyd Edwards. Am nifer o resymau anffodus, ni allwyd llwyfannu'r ddrama hon yn ôl y bwriad yn Eisteddfod Cricieth y llynedd; dyma gyfle cyntaf cynulleidfaoedd Cymru i'w gweld felly.

Tipyn o ymgymeriad oedd mynd â'r ddrama hon ar daith beth bynnag, gan fod iddi gast o dros ddeg ar hugain o gymeriadau; llwyddwyd i sicrhau'r nifer honno drwy gyfuno actorion proffesiynol gyda myfyrwyr o'r Coleg Normal, Bangor lle darlithiai'r awdur.

Mae'n seiliedig ar hanes yr Hen Destament am Jonah, ond y mae iddi bryd a gwedd hollol gyfoes. Heblaw am yr actio ei hun, mae'r cynhyrchiad hwn yn cyfuno elfennau megis dawnsio, effeithiau amrywiol ac ysgafnder, i gyfoethogi'r mynegiant.

Mae'n siwr y bydd y cyfanwaith yn deyrnged deilwng i Huw Lloyd Edwards, ac yn fawr ei apêl i gynulleidfaoedd drwy Gymru gyfan.

Cynhyrchiad cwbl wahanol yw ail fenter y Cwmni Theatr sef *Ynys y Geifr*, trosiad Islwyn Ffowc Elis o ddrama'r Eidalwr Ugo Betti, "Crime on Goat Island". Tair gwraig ar ynys unig — ac un diwrnod daw dieithryn i darfu ar yr unigedd...... ond gwell peidio â difetha'r stori! Llawer gwell fyddai i bawb ddod i weld y ddrama drostynt eu hunain.

Cyflwynir y ddwy ddrama yn Theatr Sherman, Heol Senghennydd: *Y Lefiathan* am 7.30p.m. ar Fedi'r 24 a'r 25, ac *Ynys y Geifr* am 8.00p.m. ar Hydref 11 a'r 12. Gellir archebu tocynnau ymlaen llaw o Swyddfa Docynnau'r Sherman (ffôn: Caerdydd 25855), ac fe fyddai o gymorth mawr i'r theatr, o safbwynt cychwyn perfformiadau yn brydlon, pe gwneid hynny.

# Ysgolion Meithrin

Os oedd f'adroddiad y mis diwetha yn swnio braidd yn gwynfanus — i'r gwrthwyneb y mis yma! Daeth haul ar fryn! Wedi misoedd o holi a chrwydro, daeth ffrwyth i'r llafur. Gyda phleser tu hwnt, gallaf gyhoeddi bod Cylch Meithrin newydd yn agor ar y 7fed o Fedi — Cylch yr Eglwys Newydd.

Hoffwn gydnabod gweithgarwch a brwdfrydedd Mrs Sue Williams — oni bai amdani hi ni fyddem wedi llwyddo. Ar y 7fed o Fedi bydd oddeutu dwsin o blant yn cyfarfod yn Neuadd Capel Saesneg y Methodistiaid, a bydd Mair Morgan yn athrawes arnynt am y tymor cynta. Hoffwn wybod am rai a fyddai â diddordeb mewn bod yn athrawes barhaol yn y Cylch yma.

Rwy'n siwr y buasai plant Cylch newydd yma yn falch o gael cyfraniadau o hen lyfrau a theganau ar y cychwyn fel hyn. Beth am glirio'r twll o dan y grisiau a phicio draw i'r Eglwys Newydd ag unryw gyfraniad? Os am wybodaeth bellach am y Cylch yma, cysyllter â Mrs Sue Williams, 40 Park Road, Yr Eglwys Newydd (Ffôn: 612123).

Y mae newyddion gobeithiol am Bentwyn hefyd. Mae lle i gredu ein bod wedi llwyddo i gael ystafell mewn Canolfan Gymdeithasol newydd ar y stâd, er nad yw gennym ar ddu a gwyn eto. Hyderwn agor Cylch yno yn yr Hydref. Buaswn yn ddiolchgar iawn o glywed am deuluoedd o Gymry sy'n byw yn yr ardal Pentwyn, p'run ai yw eu plant o oed meithrin ai peidio. Carwn i Gylch Meithrin Cymraeg ar stad Pentwyn fod yn fodd i ddwyn y Cymry yno at ei gilydd. Byddai'n fodd i deuluoedd ddod i adnabod ei gilydd ac i greu cymdeithas ymysg y trigolion. Dyna fel arfer sy'n brin ac ar goll ar stadau newydd anferth.

Rhyfedd fel mae rhywbeth yn mynd i waed rhywun. Ar ôl crwydro Caerdydd a De Morgannwg am wyth mis yn sbecian ar bob festri, cwt a neuadd, doniol oedd sylwi arnaf fy hun yn ystod y gwyliau yn dal ati. Wrth deithio i Aberteifi cawn fy hun yn llygadu pob neuadd a rhyw nodi wrthyf fy hun — "mi wnai fan yma'n iawn i Gylch Meithrin". Yna yn y Gogledd — sylweddoli fy mod yn gwneud yr un peth! Ar ôl sgwennu hwn byddaf yn 'i throi hi am wyliau yn Llydaw — sut mae hi yno tybed am adeiladau addas i Gylch Meithrin?!

SHAN EMLYN

# YSGOL NEWYDD

Ar 1 Medi agorwyd ysgol Gynradd Gymraeg arall gan awdurdod addysg Morgannwg Ganol. Lleolir yr ysgol hon yn hen Ysgol Gynradd Llantrisant. Mae tua 50 o blant ynddi ar hyn o bryd ac o sylweddoli fod yna lawer iawn o ddiddordeb yn yr ysgol yn yr ardal yn barod, mae'n siwr o ddilyn patrwm yr ysgolion Cymraeg eraill yn y sir a thyfu'n gyflym. Apwyntir prifathro neu brifathrawes newydd i'r ysgol yn fuan iawn. Pob dymuniad da i'r ysgol ac i'r rhieni brwd fydd yn gweithio drosti.


THEATR COLEG Y BRIFYSGOL CAERDYDD
SHERMAN
THEATRE OF UNIVERSITY COLLEGE CARDIFF

Medi 24&25 7.30pm
CWMNI THEATR CYMRU
Y LEFIATHAN
Drama olaf Huw Lloyd Edwards 70c

Medi 28-30 7.30pm (& Iau 2pm)
THEATR YR YMYLON
CARIAD CREULON
Bryn Williams 70c

Hydref 11&12 8pm
CWMNI THEATR CYMRU
YNYS Y GEIFR
Ugo Betti (cyfieithiad Islwyn Ffowc Elis) 70c

Swyddfa Docynnau CAERDYDD 25855
Llun-Sadwrn 10am-6pm
Telerau arbennig i blant a phensiynwyr



RICHARD BOOTH (BOOKSELLERS) LTD


yw'r gwerthwyr llyfrau ail-law mwyaf ond un yn yr holl fyd, gyda saith siop wahanol yn Y Gelli, a rhyw filiwn o lyfrau ar werth ynddynt bob amser. Mae'r siopau i gyd ar agor ddydd Sadwrn ac erys rhai ohonynt ar agor dros y Sul hefyd. Prynnir a gwerthir pob math o lyfrau ail-law, a chroesewir ymwelwyr o bob math (byddai'n well gennym pe bai modd i bartion drefnu eu hymweliadau ymlaen llaw).

*The Castle*
*Hay-on-Wye*
*via Hereford*
*POWYS*

*Hay-on-Wye 322*



CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH
YNG NGHYMRU




CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD

DANFONWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd

Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

# GAEAF PRYSUR I BAWB

**Dyma ni ar drothwy hydref arall (un glawiog, gobeithio!), yn dechrau meddwl am nosweithiau hirion, tywyll, a difyrrwch a gweithgareddau cymdeithasol misoedd y gaeaf.**

Mae Caerdydd yn ffodus iawn, wrth gwrs, yn y nifer o gymdeithasau Cymraeg sy'n ffynnu yma, gan gynnig rhaglen lawn o weithgareddau cymdeithasol o nawr hyd fis Ebrill neu fis Mai. Ond tybed faint o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sydd hefyd yn sylweddoli faint o gyrsiau a dosbarthiadau nos drwy gyfrwng y Gymraeg y gall Caerdydd eu cynnig erbyn hyn, dan nawdd Adran Allanol Coleg y Brifysgol?

Er enghraifft, ar nos Lun, gellir dilyn cwrs ar y Tafodieithoedd Cymraeg o dan gyfarwyddyd Dr Gwen Awbery — astudiaeth a fydd ag apêl arbennig hwyrach i athrawon iaith. Os mai llenyddol yn hytrach na ieithyddol yw'ch tueddfryd, yna hwyrach mai cwrs yr Athro A.O.H. Jarman ar yr Hen Ganu Cymraeg — Taliesin, Aneirin a Llywarch Hen — fydd yr un i chi (hwn ar nos Lun eto). Neu am farddoniaeth dipyn yn ddiweddarach, nos Fawrth amdani. Bryd hynny bydd y Dr Meredydd Evans yn cynnal cyfres o ugain o ddarlithiau ar Farddoniaeth R. Williams Parry.

O fyd llenyddiaeth i fyd cerddoriaeth, a chwrs Nan Jones ar Osod Cerdd Dant (bob nos Fercher). Cwrs diddorol a defnyddiol tu hwnt o dan arweiniad diogel a medrus y gampwraig a arweiniodd Gôr Cerdd Dant Aelwyd Caerdydd o fuddugoliaeth i fuddugoliaeth mewn eisteddfod a chystadleuaeth.

Cwrs a fydd o ddiddordeb i'r rheini sy'n rhydd yn ystod y dydd (sef gwragedd tŷ, gweithwyr shifft ac adar y nos gan mwyaf!) yw'r gyfres o Astudiaethau Gwerin a gynhelir yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan bob bore Mawrth o 10-12. Dyma gwrs sy'n cynyddu mewn poblogrwydd o flwyddyn i flwyddyn; dylid ymaelodi'n gynnar ar gyfer hwn rhag i neb gael ei siomi.

Ar lefel lai ffurfiol, ar nos Lun unwaith eto, cynhelir trafodaethau ar lenyddiaeth Gymraeg gan y Grŵp Llyfrau sy'n cwrdd yn 32 Crystal Avenue, Y Waun o dan arweiniad Mr G.E. Jones. Mae'r cylch arbennig hwn wedi ei hen sefydlu bellach — ond gresyn na fyddai mwy o gylchoedd tebyg mewn gwahanol ardaloedd yng Nghaerdydd. Dylai unryw un a fyddai â diddordeb mewn cychwyn Grŵp Llyfrau lleol o'r fath gysylltu â Dr Meredydd Evans yn y cyfeiriad a roddir isod.

Gair cyn cloi. Mae llawer o gwyno wedi bod ar hyd y blynyddoedd am ddiffyg cyrsiau nos ar amrywiaeth o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel y gwelir, mae'r sefyllfa'n gwella — ond ni all ffynnu heb eich cefnogaeth chi. Mae'r cyrsiau yno — ewch ati, ac ymaelodwch — a mynychwch y dosbarthiadau! Os na cheir y gefnogaeth hon, yna ni fydd gan neb le i gwyno pan na fydd yn bosib dilyn yr un cwrs drwy gyfrng y Gymraeg.

Wedi hynny o bregeth, y manylion:

**NOS LUN — Y TAFODIEITHOEDD CYMRAEG. Dr G.M. Awbery. 10 darlith. Cyfarfod cyntaf: Hydref 4. 7.00-9.00. Tâl: £1.25. Man cyfarfod: TŶ'R CYMRY, HEOL GORDON. (Apêl arbennig yma at athrawon iaith.)**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG: YR HEN GANU CYMRAEG. Astudiaeth o gefndir a natur y canu arwrol — Y Cynfeirdd, Taliesin, Aneirin a Llywarch Hen. Yr Athro A.O.H. Jarman. 10 darlith. Cyfarfod cyntaf: Hydref 11. 7.00-9.00. Tâl: £1.25. Man cyfarfod: ADEILAD NEWYDD Y CELFYDDYDAU (tu ôl i'r Llyfrgell newydd ar ben Colum Road.)**

**LLENYDDIAETH GYMRAEG — Y GRŴP LLYFRAU. G.E. Jones, M.A. 6 darlith. Cyfarfod cyntaf: Hydref 4. 7.30-9.30. Tâl: £1. Man cyfarfod: 32 CRYSTAL AVENUE, HEATH.**

**NOS FAWRTH — BARDDONIAETH R. WILLIAMS PARRY. Meredydd Evans. 20 darlith. Cyfarfod cyntaf: Hydref 5. 7.00-9.00. Tâl: £2.00. Man cyfarfod: ADEILAD NEWYDD Y CELFYDDYDAU.**

**NOS FERCHER — GOSOD CERDD DANT. (Astudiaeth o wahanol ddulliau o osod Cerdd Dant, a'r rheolau manwl.) Nan Jones, B.A. 12 darlith. Cyfarfod cyntaf: Tachwedd 3. 7.00-9.00. Tâl: £1.50. Man cyfarfod: CANOLFAN ADRAN EFRYDIAU ALLANOL, HEOL Y PARC.**

**BORE MAWRTH — ASTUDIAETHAU GWERIN. Cwrs o ddarlithiau gan aelodau o staff Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. 10 darlith. Man cyfarfod: YR AMGUEDDFA WERIN, SAN FFAGAN. Tâl: £1.25 Cyfarfod cyntaf: Hydref 12. 10.00-12.00.**

**Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r cyrsiau hyn ymofynner â Meredydd Evans, ADRAN EFRYDIAU ALLANOL, COLEG Y BRIFYSGOL, CAERDYDD. Gellir ymaelodi'n ffurfiol yn ystod cyfarfodydd cyntaf y dosbarthiadau. Eithr byddai'n hwylustod i'r Adran pe d anfonech lythyr ymlaen llaw yn mynegi eich bwriad i ymuno â rhyw ddosbarth neu'i gilydd.**

## Clwb Tŷ'r Cymry — Caerdydd

AELODAETH 1976-77

*Aelodaeth Gyffredin : £0.50 Lleiafswm*
*Aelodaeth Myfyriwr : £0.25*
*Aelodaeth Henoed : £0.25*

DOSBARTH ADRAN EFRYDIAU ALLANOL

Cyfres o 10 darlith gan Dr. Gwenllian Awbery, "*Y Tafodieithoedd Cymraeg*", yn cychwyn Nos Lun, 4 Hydref 1976 am 7.00 o'r gloch. Tâl Cofrestru'r gyfres : £1.00.

☐ Amgaeaf £ Aelodaeth Gyffredin/Myfyriwr/Henoed am y flwyddyn 1976-77.

☐ Amgaeaf £1.00 i gofrestru yn Nosbarth yr Adran Efrydiau Allanol.

Cyfanswm: £

Enw ........................................

Cyfeiriad ........................................

........................................

Dychweler at: Yr Ysgrifennydd, Clwb Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, Caerdydd CF2 5AJ.

*Cyngor Celfyddydau Cymru*
*Welsh Arts Council*

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

SIOP LYFRAU

- **Llyfrau ar gyfer y Dysgwyr:- Gwers lyfrau, geiriaduron, llaw-lyfrau, nofelau, recordiau a chasetiau**
- **Llyfrau a chasetiau ar gyfer yr ysgolion meithrin.**

*Galwch heibio*

# PENDYRYS

**Nid y côr sydd gen i mewn golwg ond tŷ, 56 Heol Conwy, a dweud y gwir. Tybed a wnaethoch chi sy'n mynychu Canolfan yr Urdd sylwi arno? Tŷ mawr tri-llawr dwbwl yw e, ar y cornel nesaf at dafarn y "Conway". Nid ei bensaernïaeth, sy'n perthyn i Oes Victoria, yw'r peth arbennig amdano ond y ffaith i feddyg o Wyddel o'r enw James Mullin fyw yno am fwy na chwarter canrif dros hanner can mlynedd yn ôl. Nid dyma'r lle cyntaf iddo fyw ynddo yng Nghaerdydd achos ganwyd ei ferch yn Stryd Meisgyn a'i fab yn 29 Gerddi Rhuthun.**

Roedd James Mullin yn Wyddel nodedig iawn, yn feddyg neilltuol o dda ac yn ŵr o gymeriad arbennig. Roedd ei feddygfa yn 10 Stryd y Dollfa (Custom House Street). Dewisodd y lle hwnnw am ei fod yn llecyn strategol cyfleus i'r tramiau a dramwyai'n stwrllyd drwy'r strydoedd pan ddaeth ef yma tua diwedd 1882 neu ddechrau 1883. Bu am ysbaid byr cyn hynny ym Mryn Mawr yn gofalu am gleifion o lowyr am £60 y flwyddyn; yna ym Mlaenafon am ddwy flynedd a hanner yn gweithio'n galed, bron heb ddim gorffwys, am £120 y flwyddyn; yna am ysbaid arall yng Nghwm Ogwr. Pan benderfynodd orffen crwydro daeth i Gaerdydd, hoffodd y lle, a dyma lle treuliodd weddill ei yrfa fel meddyg.

Ymddiddorai yn ei gleifion a gofalai beidio â chodi gormod o dâl ar y rhai tlawd. Os byddai ar glaf afiechyd a barai'n hir ni chodai dâl ond am ddau ymweliad. Câi'r claf wybod pan fyddai wedi gwella — ni fyddai byth yn ei gadw ar restr ei gleifion wedyn a derbyn tâl pellach. Cymysgai'r moddion yng ngŵydd pawb yn y feddygfa. Gwyddai ble i brynu cyffuriau am y pris rhataf ac er mwyn arbed gwastraff arnynt ni fyddai'n rhoi i'r claf ond mesur bach ar y tro. Ni chredai mewn codi crocbris am ei waith — yn wir, codai lai na chyfartaledd meddygon eraill Caerdydd, yn ôl yr hanes.

Daeth yma o Galway bell. Ganwyd ef yn Cookstown, Wleth (Ulster). Bu farw'i dad ac yntau'n ifanc iawn ond gofalodd ei fam am roi addysg iddo. Ceir ei hanes yn ei hunangofiant, *The Story of a Toiler's Life* (1921). Mae'n wir iddo ennill ysgoloriaethau i Academi Cookstown ac i Brifysgol Galway. Cafodd radd B.A. ac ennill gwobrau yn y clasuron, yn llên Saesneg, hanes a metaffyseg. Ond nid oedd yn fodlon ar hynny. Aeth ymlaen i astudio meddygaeth. Gwastraffodd dipyn o amser a methodd yn ei arholiadau fwy nag unwaith. Eithr gwelodd y golau coch mewn pryd, drwy drugaredd, a graddiodd fel meddyg ym 1880 ac ennill gwobrau lawer ar y ffordd.

Yn ei ieuenctid bu'n perthyn i'r Ffeniaid. Yng Nghaerdydd ymunodd â'r "National League". Bu Charles Stewart Parnell a Padrig Pearse a llawer o Wyddyl da eraill yn aros ym Mhendyrys. Magwyd James Mullin yn Babydd ond edmygai'n fawr y Protestant Parnell. Nid oes son iddo ymweld ag Iwerddon ar ôl iddo ymgartrefu yma.

Ar ol penderfynu gorffen gweithio fel meddyg yng Nghaerdydd oherwydd ei iechyd, treuliodd lawer o'i amser yn crwydro'r byd. Bu ond y dim iddo gael ei ladd mewn daeargryn yn Jamaica ac ysgrifennodd yr hanes am hynny i'r *Western Mail.*

Ym 1899 yr oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd. Nid oedd y rheol Gymraeg yn bod y pryd hwnnw ac enillodd James Mullin am gerdd Saesneg ar y testun "The Battle of St Fagans 8 May 1648". Sgrifennodd hefyd y geiriau i dôn newydd gan Faeres Caerdydd sef Mrs Edward Thomas, gwraig Cochfarf. (Roedd gan y Cochfarf hwn dafarn goffi yn yr un stryd â meddygfa James Mullin, ac yn y dafarn goffi honno y ffurfiwyd Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd.) Testun y gân ydyw "St David's Leek", geiriau gwlatgarol a sgrifennwyd yn arbennig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, 1903. Dyma ddwy linell o'r gân:-

*Of all the badges Britons wear,*
*St David's Leek for me.*

Roedd gan James Mullin wyneb hardd iawn. Gwisgai farf hir a locsen, yn ôl ffasiwn yr oes honno. Gwenai ei llygaid glas yn garedig. Gweithiai'n galed ac yn ddibaid a'i hoff seibiant oedd gwyliau cerdded. Cafodd fywyd caled iawn yn ystod ei fachgendod ac ni ddechreuodd ar ei addysg nes ei fod yn hŷn na'r cyffredin. Ond perchid ef am ei allu meddygol eithriadol. Roedd yn amlwg ym mywyd cyhoeddus Gwyddyl Caerdydd, a sgrifennai lawer i'r *Western Mail.*

Bu Heol Conwy yn drigfan i lawer iawn o bobl enwog — nid y lleiaf ohonynt oedd James Mullin. Ychydig iawn iawn o newid a fu ar Bendyrys oddi ar pan fu ef farw yno ym 1919, yn 73 mlwydd oed.

MAIR ELVET THOMAS
*(Cafwyd y wybodaeth hon o'r* **Glamorgan Historian**, *Rhif 10.)*


**Cyngor Celfyddydau Cymru**

## Cystadleuaeth Stori Fer Hir (Haf 1976)

GWOBRAU: £300, £200, £100

*Amodau a manylion llawn oddi wrth:*
*Y Swyddog Llenyddiaeth, Cyngor Celfyddydau Cymru,*
*9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd, CF1 3NX.*
*Tel. 0222/394711*




*Y GYMDEITHAS LÊN*

*Bydd Cymdeithas Lenyddol Caerdydd yn ail gychwyn ei rhaglen ym mis Hydref Manylion tro nesa.*

**AELWYD CAERFFILI**

**Mae aelodau Aelwyd Caerffili yn dangos yn ymarferol mor gref yw'r ymdeimlad o gyfrifoldeb i gymdeithas ymysg ein pobl ifainc heddiw. Bu'r aelodau uchod yn ymweld yn gyson â chapeli'r ardal i gynnal gwasanaethau nos Sul — o Gasnewydd i Benderyn ac o'r Barri i Ferndale. Anfonir yr holl arian a gesglir at achosion da lleol ac, yn ddiweddar, cyflwynwyd siec am £100 i Gymdeithas Plant Awtistaidd De Cymru.**

*Rhes Gefn* — **Dewi ap Rhobert, Geraint Bowyer, Hywel Tilley, Sian Morgan, Lynne Hughes, Alun Charles.** *Rhes Flaen* — **Rhian Close, Gareth Roberts, Rhian Hughes, Gaynor Harper.**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd, Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*